RHIFYN
ISSUE
44
16.01.22

Llais Llantrisant

DYDDIADAU'R TYMOR
TERM DATES

Diwrnod olaf Tymor y Gwanwyn eleni fydd 08.04.22 am 3:30 yp. Bydd y plant yn dychwelyd ar gyfer Tymor yr Haf ar 26.04.22. Diwrnod ola'r flwyddyn yw 22.07.22.

Cofiwch ymweld â chalendr gwefan yr ysgol yn rheolaidd i wirio dyddiadau.

The last day of the Spring Term this year is on 08.04.22 at 3:30 pm. The children return for the Summer Term on 26.04.22. The last day of the year is 22.07.22.

Remember to visit the school website calendar regularly to check dates.

HMS 2021-2022
INSET 2021-2022

Eleni, bydd pob ysgol yng Nghymru yn cau am 6 diwrnod HMS.

This year, every school in Wales will close for 6 INSET days.

03.09.21	**25.04.22**
+ 4 i'w trefnu / TBA	

AMSEROEDD YSGOL
SCHOOL TIMES

Hoffem atgoffa pawb fod clwydi'r ysgol ar agor am 8:50 yb ac yn cael eu cloi am 9:00 yb fel bod y plant yn gallu dechrau yn syth ar weithgareddau'r dydd. Gwerthfawrogir petai pawb yn gwneud ymdrech i sicrhau fod y plant yn cyrraedd ar amser, os gwelwch yn dda.

We should like to remind everyone that the school gates are opened at 8:50 am each morning and are locked at 9:00 am to ensure that everyone is in class, on time and ready for the day's learning. It would be much appreciated if you could ensure that the children arrive on time, please.





DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

18.02.22 - Plant yn gorffen am wyliau Hanner Tymor
Children finish for Half Term break
28.02.22 - Plant yn dychwelyd
Children return
08.04.22 - Plant yn gorffen am wyliau'r Pasg
Children finish for Easter break
25.04.22 - Diwrnod HMS
INSET Day
26.04.22 - Plant yn dychwelyd - Tymor yr Haf
Children return - Summer Term

BLWYDDYN NEWYDD DDA!
HAPPY NEW YEAR!

Traddodiad Cymreig adnabyddus, sy'n dal i'w weld mewn rhai ardaloedd, yw'r casgliad o galennig (anrheg Blwyddyn Newydd) lle mae plant yn codi'n gynnar ac yn cario o ddrws i ddrws, fel cludwyr pob lwc, afal addurnedig, wedi'i dyllu â thair ffon a'i addurno gyda sbrigyn o focs a chnau cyll, er enghraifft. Mae'r plant fel arfer yn canu pennill syml ac, fel arfer, yn derbyn anrheg neu fwyd neu arian ar gyfer eu trafferthion. Roedd rhigymau a chaneuon wedi'u geirio'n gryno a'u neges oedd cyhoeddi dyfodiad y Flwyddyn Newydd, dymuno deuddeg mis llewyrchus i'r teulu, a gofyn ohono 'calennig' neu (Anrheg Blwyddyn Newydd) - Welsh Christmas Traditions | Wales.com

A well-known Welsh tradition, still seen in some areas, is the collection of calennig (New Year's gift) where children rise early and carry from door to door, as bearers of good luck, a decorated apple, pierced with three sticks and adorned with a sprig of box and hazelnuts, for example.

The children usually sing a simple verse and in return usually received a gift or food or money for their troubles. Rhymes and songs were concisely worded and their message was to announce the New Year's arrival, to wish the family a prosperous twelvemonth, and to ask for 'calennig' or (New Year's Gift) - Welsh Christmas Traditions | Wales.com







MIS IONAWR 2022
JANUARY 2022

Erbyn hyn, mae'r plant i gyd wedi ymgartrefu'n dda wedi gwyliau'r Nadolig ac yn brysur iawn yn gweithio'n galed ar eu themâu newydd y tymor hwn. Diolch yn fawr iawn i bawb sydd yn helpu'r ysgol i gadw pawb yn ddiogel ac, yn bwysicach, i gadw pob dosbarth ar agor a phob plentyn yn yr ysgol trwy ymbellhau yn briodol, gwisgo gorchudd wyneb ar safle'r ysgol ac am beidio ag ymgynnull i gael sgwrs ar ôl gollwng y plant bob bore. Gyda phawb yn chwarae eu rhan, bydd yr ysgol yn parhau i fod yn ddiogel ac ar agor i'r plant.

By now, all pupils have settled in well to school following the Christmas break and are busily starting work on their new themes for the term. Many thanks to all those who are helping us to keep everyone safe and, more importantly, keeping every class open and every child in school by following the relevant social distancing guidance, utilising face coverings where possible and for not congregating on the school site for a chat after dropping off the children each morning. With everyone playing their part, school will continue to be a safe space and open for the children.

RHIANT LYWODRAETHWR
PARENT GOVERNOR

Hoffech chi ymuno â Bwrdd Llywodraethu'r ysgol? Bwrwch olwg ar y llythyr hwn a anfonwyd at bob rhiant ar 12.01.22.

Would you like to join the school's Governing Body? Take a look at this letter which was emailed to all parents on 12.01.22.



CYSYLLTU Â CHI
CONTACTING YOU



Cofiwch fwrw golwg rheolaidd ar APP yr ysgol a'ch cyfrif ebost i sicrhau nad ydych yn colli negeseuon pwysig. Edrychwch ar wefan yr ysgol a'r calendr bob wythnos. Os ydych chi'n amau nad ydych yn derbyn gohebiaeth bwysig, cysylltwch â ni.

Remember to regularly look at the school APP and your emails to make sure you aren't missing any important messages.Have a look at the school website and the calendar each week. If you doubt that you are receiving important correspondence, contact us.

EIDDO'R PLANT
CHILDREN'S BELONGINGS

Cofiwch roi enw ar bob peth sydd yn perthyn i'ch plant os gwelwch yn dda - mae degau o siwmperi gyda ni yn yr ysgol heb enwau, er enghraifft.

Hefyd, gofynnir yn garedig i chi sicrhau fod gan eich plant bob dim sydd angen arnynt ar gyfer y diwrnod ysgol, os gwelwch yn dda. Ar hyn o bryd, mae llif cyson o ymwelwyr â'r ysgol yn y boreau ar ôl 9:00 yb yn dod â llyfrau darllen, ffrwythau, diodydd, cotiau, sbectol ac ati. Gwerthfawrogir eich cydweithrediad.

Please remember to mark all of your children's personal belongings with their names - we have tens of jumpers at school without names, for example. Also, please make sure that your children have everything they need for the school day. At present, there is a steady stream of visitors to the school office in the mornings after 9:00 am bringing reading books, fruit, drinks, coats, glasses and so on. Your co-operation is appreciated.

Cofiwch ymweld â / *Remember to visit:* **www.yggglantrisant.cymru**





ALERGEDDAU A BWYD
ALLERGIES AND FOOD





Gyda nifer o blant newydd yn ymuno â ni y tymor hwn, mae'n syniad i ni atgoffa pawb o'r wybodaeth isod.Mae nifer o blant yn yr ysgol ar hyn o bryd sydd ag alergeddau difrifol at rai fwydydd. Mae hyn yn cynnwys cnau: cnau daear, menyn pysgnau, pecanau, cnau Ffrengig, olew cnau a chyflasynnau cnau. Gallai cyffwrdd neu fwyta rhai o'r eitemau hyn achosi adwaith difrifol. Er mwyn diogelwch y disgyblion hyn, gofynnir yn garedig unwaith eto i rieni osgoi anfon bwydydd sy'n cynnwys cnau i'r ysgol ar gyfer ciniawau pecyn a byrbrydau amser chwarae, os gwelwch yn dda. Mae hyn yn cynnwys bwydydd fel 'Nutella'. Hefyd, cofiwch dorri grawnwin, llus, tomatos bach ac ati yn eu hanner ar eu hyd, os gwelwch yn dda, gan fod plant yn gallu tagu'n hawdd ar y ffrwythau hyn. Diolch yn fawr ymlaen llaw am eich cydweithrediad.

With a number of new children having joined us this term, it's appropriate that we remind everyone of the information below. Currently, there are a number of children in school who have a severe, life- threatening allergy to various food products. This includes nuts: peanuts, peanut butter, pecans, walnuts, nut oils and nut flavourings etc. Touching or eating these items may provoke a severe allergic reaction. For the safety of these pupils, we once again kindly ask that parents do not send any food containing these items to school for a snack or in packed lunches. This also includes foodstuffs such as 'Nutella'. Also, please remember to cut grapes, blueberries, small tomatoes etc. in half, lengthways as children can quite easily choke on these fruits. Thank you in advance for your co-operation.

CYFARFODYDD CYNNYDD AR-LEIN
ONLINE PROGRESS MEETINGS



Cynhelir Cyfarfodydd Cynnydd Tymor y Gwanwyn i chi drafod cynnydd eich plant gyda'r athrawon ar Ebrill 4 ac Ebrill 5 2022 yn dechrau am 3:50 yp. Cadwch y dyddiadau hyn yn rhydd os gwelwch yn dda. Cewch ragor o wybodaeth yn nes at y dyddiadau hyn ynghylch y system bwcio apwyntiad ar-lein.

Our Spring Term Progress Meetings to discuss your children's progress with the teachers will be held on April 4 and April 5 2022 starting at 3:50 pm. Please keep these dates free. You will receive further information regarding the online booking system closer to the date.

MEDDYGINIAETH
MEDICINES

Hoffem atogffa pawb fod Polisi Gofal Iechyd yr ysgol ar gael ar wefan yr ysgol. Os oes angen meddyginiaeth ar eich plentyn, mae modd i'r moddion gael ei weinyddu gyda'ch caniatâd chi ac ewyllys da y staff. Nid oes hawl gan unrhywun i weinyddu moddion heb i riant gwblhau'r ffurflenni perthnasol. Cewch ddod o hyd i'r ffurflenni hyn ar dudalen hon gwefan yr ysgol. Dylech wneud y trefniadau hyn cyn i'r plentyn ddychwelyd i'r ysgol. Ebostiwch athro / athrawes eich plentyn i wneud y trefniadau hyn, os gwelwch yn dda.

Please be reminded that the school's Healthcare Policy can be found on the school website. If your child needs to take medicine, it is possible for a member of staff to administer this with your consent and the staff's good will. No member of staff is able to carry this out without the relevant forms being completed by a parent. You can find these forms on this page of the school website. These arrangements should be made prior to any child returning to school. Please email your class teacher to make these arrangements.

COVID19
CANLLAWIAU HUNANYNYSU
COVID19
SELF-ISOLATION GUIDANCE





Fel y gwyddoch, rwy'n siwr, mae'r sefyllfa bresennol a'r canllawiau presennol ynghylch achosion positif o COVD19 a'r rheolau hunanynysu yn newid yn rheolaidd. Felly, defnyddiwch y ddolen hon i sicrhau eich bod yn derbyn y canllawiau diweddaraf os oes angen cyfeirio atynt. Yn ogystal, mae llu o wybodaeth ar dudalen hon gwefan yr Awdurdod Lleol.

As you will be aware, I'm sure, the current situation and guidance regarding positive cases of COVID19 and the self-isolation guidance changes regularly. So, please follow this link to ensure that you have the most up to date guidance should you need to refer to it. There is also a wealth of information on this page of the Local Authority's website.

Dilynwch ni ar / *Follow us on:* **@YGGGLlantrisant**